OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 777 (Cy. 158) (C. 60)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 (Cychwyn a Darpariaeth Drosiannol) 2018

*Gwnaed* - - - - *14 Mehefin 2018*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 19(2) a (3) o Ddeddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018(**1**).

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 (Cychwyn a Darpariaeth Drosiannol) 2018.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cronfa enillion o waredⁱadau" ("*disposal proceeds fund*") yw cronfa o dan adran 24(**2**) o Ddeddf 1996;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Tai 1996(**3**);

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 15 Mehefin 2018

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 15 Mehefin 2018—

(a) adran 1 (trosolwg o'r Ddeddf);

(b) adran 2 (ystyr "Deddf 1996"); ac

(c) adran 18 (pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol pellach etc.).

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 15 Awst 2018

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 15 Awst 2018—

(**1**) 2018 dccc 4.
(**2**) Diwygiwyd adran 24 gan adran 61 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (p. 17), ac O.S. 2010/866.
(**3**) 1996 p. 52.

(a) adrannau 3 i 5 (landlord cymdeithasol cofrestredig yn hysbysu am newidiadau cyfansoddiadol, etc.);

(b) adrannau 6 i 9 (pwerau sy'n arferadwy mewn cysylltiad â swyddogion a rheolaeth landlord cymdeithasol cofrestredig);

(c) adran 10 (pwerau sy'n arferadwy mewn cysylltiad ag ymchwiliadau etc.);

(d) adrannau 11 a 12 (hysbysiadau gorfodi a chosbau);

(e) adrannau 13 i 15 (gwarediadau tir);

(f) adran 16 ac Atodlen 1 (cyfyngiad ar aelodaeth awdurdodau lleol o fwrdd a hawliau pleidleisio); ac

(g) adran 17 ac Atodlen 2 (mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol).

**Darpariaeth drosiannol**

**4.**—(1) Nid yw adran 15 o'r Ddeddf yn cael effaith, mewn perthynas â landlord cymdeithasol cofrestredig, hyd nes y cynharaf o'r canlynol—

(a) y dyddiad y mae'r cyllid yng nghronfa enillion o warediadau'r landlord cymdeithasol cofrestredig hwnnw yn dod i ben yn llwyr; neu

(b) y dyddiad y mae'r landlord cymdeithasol cofrestredig yn hysbysu Gweinidogion Cymru nad yw'n gallu defnyddio neu ddyrannu, na pharhau i ddefnyddio neu ddyrannu, cyllid yng nghronfa enillion o warediadau'r landlord cymdeithasol cofrestredig hwnnw yn unol â phenderfyniad a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 25 o Ddeddf 1996(**4**); neu

(c) 15 Awst 2021.

(2) Er gwaethaf paragraff (1), nid yw'n ofynnol i landlord cymdeithasol cofrestredig sydd â chronfa enillion o warediadau ar 15 Awst 2018, o dan adran 24 o Ddeddf 1996, roi cyfrif am yr enillion o unrhyw warediad ar ôl y dyddiad hwnnw o fewn ei gronfa enillion o warediadau.

(3) Os yw landlord cymdeithasol cofrestredig (A), o fewn y cyfnod a nodir ym mharagraff (1), yn trosglwyddo ei gronfa enillion o warediadau i landlord cymdeithasol cofrestredig arall (B), caiff rheolaeth B o'r gronfa honno ei thrin o dan baragraff (1) fel pe bai'n A.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Tai ac Adfywio, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru

14 Mehefin 2018

(**4**) 1996 p. 52. Diwygiwyd adran 25 gan adran 61 o Ddeddf Tai ac Adfywio 2008 (p. 17).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau Deddf Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) 2018 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn pennu 15 Mehefin 2018 fel y dyddiad dod i rym adrannau 1, 2 a 18 o'r Ddeddf, sy'n ddarpariaethau technegol, a'r pŵer i wneud diwygiadau canlyniadol etc.

Mae erthygl 3 yn pennu 15 Awst 2018 fel y dyddiad dod i rym ar gyfer unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf i'r graddau nad yw wedi ei chychwyn eisoes cyn y dyddiad hwn.

Mae erthygl 4 yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â dileu'r gofyniad i gynnal cronfa enillion o waredidadau.